GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Deddf Ddedfrydu 2026: Effeithiau ar ddarpariaeth gofal iechyd yng Nghymru

Ystyried y Newidiadau Arfaethedig o Safbwynt Penderfynyddion Ehangach Iechyd

Rhan 2: Cefndir i Ddiwygio a Chanfyddiadau Manwl





Cynnwys

Cynnwys 1
Awduriaeth a Chydnabyddiaethau Awduron: 1
Cyflwyniad 1
Cefndir Manwl i Ddiwygio 1
Newidiadau Dedfrydu 4
Canfyddiadau Manwl 14
Mwy o Ddedfrydu Cymunedol 15
Rhyddhau o'r Ddalfa yn Gynharach 22
Newidiadau i Gwmpas Goruchwyliaeth 27
Newidiadau Amrywiol 28
Cyfeiriadau 29

Awduriaeth a Chydnabyddiaethau

Awduron:

Adam Davies[1], Benjamin Gray[1], Liz Green[2], Kathryn Ashton[2], Stephanie Perrett[1]

Cysylltiadau:

[1]Rhaglen Iechyd Cynhwysiant Clefydau Heintus (CDIHP), Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

[2]Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC), Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cydnabyddiaethau:

Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiolch i'r rhai a gymerodd ran yn y gweithdy Asesu Effaith Iechyd, yn enwedig Liz Green ac Amanda Jones.

Hoffem hefyd ddiolch i'r unigolion canlynol am eu cyfraniad a'u hadborth a helpodd i ddatblygu'r adroddiad hwn: Rick Lines, Jo Hopkins, Michelle Hughes, Mary-Eve Nelson, Daniel Harman ac Abigail Malcolm.

Cyflwyniad

Mae Rhan 2 o'r adroddiad hwn yn rhoi rhagor o fanylion am gefndir y diwygio a arweiniodd at weithredu Deddf Dedfrydu 2026 ac yn darparu canfyddiadau manwl o'r gweithdy Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chrynhoi yn Rhan 1 o'r adroddiad sydd ar gael ar wefan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC) yn https://icccgsib.co.uk/whiasu/ https://phwwhocc.co.uk/whiasu/

Gweler Rhan 1 o'r adroddiad am:-

- Grynodeb o gefndir y diwygio
- Crynodeb o newidiadau dedfrydu
- Crynodeb o'r effeithiau ar garchardai, Y Gwasanaeth Prawf a gwasanaethau datganoledig
- Methodoleg
- Crynodeb o'r prif ganfyddiadau (gan gynnwys effeithiau grwpiau poblogaeth)
- Argymhellion

Cefndir Manwl i Ddiwygio

Adolygiad Dedfrydu Annibynnol

Comisiynwyd yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol gan Lywodraeth y DU ym mis Hydref 2024 mewn ymateb i argyfwng gorlenwi a chapasiti parhaus mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr. Cadeiriwyd yr adolygiad gan David Gauke. Gwaith yr adolygiad oedd argymell diwygiadau a fyddai'n rhoi'r system garchardai ar "sail gynaliadwy" ac roedd hyn yn gofyn am leihau'r galw am lefydd carchar o 9,500[1].

Cyhoeddodd yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol ei adroddiad terfynol ym mis Mai 2025, ac roedd yn cynnwys 46 o argymhellion eang eu cwmpas. Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion bellach wedi'u deddfu[i].

Gorlenwi Carchardai

Canfu'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol fod gwasanaeth carchar "yn beryglus o agos i chwalu". Roedd carchardai ledled Cymru a Lloegr yn wynebu argyfwng gorlenwi ac yn lletya mwy o unigolion nag yr oeddent wedi'u cynllunio i'w lletya[2].

[i] Derbyniodd Deddf Dedfrydu 2026 gydsyniad brenhinol ar 22 Ionawr 2026. Gwrthododd y llywodraeth yr argymhelliad ar gyfer model dilyniant ar gyfer Dedfrydau Penodol Estynedig, gweler https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-progression-measures-factsheet .

Er mwyn parhau i weithredu'n ddiogel, rhoddodd y gwasanaeth carchardai fesurau brys ar waith i leddfu pwysau capasiti. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- Trosglwyddo hyd at 400 o garcharorion o ystâd y carchardai i ddalfeydd yr heddlu **(Ymgyrch Diogelu, Tachwedd 2022)**[3]
- Gwneud mwy o ddefnydd o fannau agored mewn carchardai drwy symud carcharorion mewn carchardai Categori C ('carchardai caeedig') i garchardai Categori D ('carchardai agored') **(Cynllun Ailgategoreiddio Rhagdybiol Dros Dro/TPRS36, Mawrth 2023)**[4]
- Cynlluniau Rhyddhau Cynnar Dros Dro hyd at 70 diwrnod cyn y dyddiad rhyddhau amodol ar gyfer carcharorion gwrywaidd a hyd at 18 diwrnod cyn y dyddiad rhyddhau amodol ar gyfer carcharorion benywaidd. **(Trwydded Goruchwyliaeth Wedi'r Carchar, Hydref 2023)**[5]
- Newid y pwynt rhyddhau awtomatig ar gyfer unigolion sy'n cyflawni dedfrydau safonol penodol o 50% o'r ddedfryd i 40% o'r ddedfryd, ac eithrio rhai categorïau o droseddwyr **(SDS40, Medi 2024)**[6]
- Ehangu cymhwysedd ar gyfer Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref (HDC) ar gyfer unigolion sy'n cyflawni dedfrydau dros 48 mis, ac ehangu hyd mwyaf HDC o 180 diwrnod i 365 diwrnod **(HDC365, Tachwedd 2024)**[7]
- Dileu Adalw Safonol yn y mwyafrif helaeth o achosion ar gyfer unigolion sy'n cyflawni dedfrydau pendant o 4 blynedd a llai **(FTR48, Medi 2025)**[8]

Pwysau ar y Gwasanaeth Prawf

O ganlyniad i'r mesurau brys hyn, cafodd unigolion eu symud o'r carchar i'r gymuned. Yn dilyn cyflwyno SDS40, cafodd 3,112 o garcharorion ledled Cymru a Lloegr eu rhyddhau[9]. Rhyddhawyd y carcharorion hyn mewn dwy gyfran ym mis Medi a mis Hydref 2024. Yn yr un modd, roedd cyflwyno FTR48 yn cynnwys rhyddhau "cannoedd" o garcharorion a adalwyd yn ôl i'r gymuned ar raddfa fawr rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025[10].

Mae'r cynlluniau rhyddhau'n gynnar hyn, er eu bod yn lleddfu'r pwysau ar garchardai, wedi cynyddu llwythi gwaith yn y Gwasanaeth Prawf. Dilynwyd hyn gan gyflwyno mesurau i leddfu pwysau llwyth gwaith wrth flaenoriaethu rheoli achosion a oedd yn codi pryderon ynghylch diogelu'r cyhoedd a materion diogelu. Mae rhai o'r mesurau hyn yn cynnwys:-

- Atal goruchwyliaeth weithredol unigolion ar bwynt 2/3 o gyfnodau trwydded ôl-ryddhau a dedfrydau cymunedol, a drwy gydol cyfnodau trwydded goruchwyliaeth ôl-ddedfrydu. Mae achosion cymwys yn destun rheolaeth adweithiol yn ystod y cyfnod dim ond mewn ymateb i sefyllfa neu wybodaeth a dderbynnir. Mae eithriadau'n berthnasol er mwyn sicrhau bod y troseddwyr mwyaf difrifol yn parhau i gael eu goruchwylio. **(Ailosod Prawf)**[11]

- Blaenoriaethu ymyriad ar ddechrau cyfnod dedfrydu. Bydd goruchwylio achosion yn weithredol yn dod i ben ar ôl 16 wythnos ar gyfer yr unigolion hynny wedi'u

hasesu'n rhai sy'n peri risg is o aildroseddu difrifol a risg isel o niwed difrifol. **(EFFAITH)**[12]

Adolygiad Dedfrydu Annibynnol a Diwygiadau Ategol Eraill

Bwriad Deddf Dedfrydu 2026 yw rhoi'r gwasanaeth carchardai a phrawf ar sail gadarn, gan sicrhau bod digon o gapasiti mewn carchardai i ddarparu ar gyfer pawb sydd wedi'u dedfrydu i garchar a bod y gwasanaeth prawf yn gallu cefnogi'r rhai sydd o dan ei oruchwyliaeth yn y gymuned yn ddigonol.

Mae llawer o'r cynigion ar gyfer diwygio'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, sydd bellach wedi'u deddfu gan Ddeddf Dedfrydu 2026, naill ai'n adlewyrchu neu'n gwella ar y mesurau brys a gymerwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF. Er enghraifft, newidiodd SDS40 y dyddiad rhyddhau ar gyfer rhai carcharorion sy'n cyflawni Dedfrydau Penodol Safonol i ddyddiad cynharach, sef ar ôl cyflawni 40% o'r ddedfryd yn lle 50%[13]. Mae'r Ddeddf Dedfrydu bellach wedi newid y dyddiad hyd yn oed yn gynharach, i gam 33% o'r ddedfryd[14]. Yn yr un modd, mae Ailosod Prawf a oedd yn cwtogi ar oruchwyliaeth yn nhraean olaf dedfryd hefyd i'w weld i ryw raddau yn y model dilyniant[15].

Bwriedir i'r diwygiadau a gyflwynwyd yn Neddf Dedfrydu 2026 gael eu hategu gan ddiwygiadau eraill a wneir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Strategaeth Capasiti Carchardai 10 mlynedd

Mae Strategaeth Capasiti Carchardai 10 mlynedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu darparu 14,000 o leoedd carchar ychwanegol yng Nghymru a Lloegr erbyn 2031[16] drwy adeiladu carchardai newydd ac ehangu'r ystâd bresennol. Dylai'r gwaith ehangu hwn ynghyd â gostyngiad uniongyrchol ym mhoblogaeth carchardai drwy weithredu Deddf Dedfrydu 2026 ddarparu digon o gapasiti yn ystâd carchardai i letya'r boblogaeth garchardai a ragwelir, gan hefyd leddfu pwysau gorlenwi[17].

Rhaglen 'Our Future Probation Service' a Strategaeth Gweithlu Prawf (2023–2025)

Mae'r *Rhaglen 'Our Future Probation Service'* yn bwriadu gwella capasiti yn y Gwasanaeth Prawf drwy gyflwyno prosesau symlach. Mae hyn yn cynnwys datrysiadau digidol arloesol yn ogystal â gweithredu newidiadau i gwmpas goruchwylio (h.y. pa garfanau troseddwyr sy'n cael eu goruchwylio ac am ba hyd)[18].

Mae Gasanaeth Carchardai a Phrawf EF hefyd wedi ymrwymo i recriwtio 1,300 o ymarferwyr prawf ychwanegol erbyn mis Mawrth 2026 yn ogystal â'r 3,000 a gynlluniwyd i'w recriwtio yn ystod 2021/22 a 2024/25[19].



Newidiadau Dedfrydu

Crynodeb o'r Newidiadau

Er hwylustod darllen, mae'r newidiadau a wnaed yn Neddf Dedfrydu 2026 wedi'u grwpio i bedwar categori ar wahân:-

- **Mwy o Ddedfrydu Cymunedol**
- **Rhyddhau o'r Ddalfa yn Gynharach**
- **Newidiadau i gwmpas goruchwyliaeth gymunedol**
- **Newidiadau amrywiol**

Mae'r newidiadau sy'n ymwneud â phob grŵp wedi'u trafod isod.

Mwy o Ddedfrydu Cymunedol

Mae'r Ddeddf Dedfrydu yn ceisio gwneud mwy o ddefnydd o ddedfrydau cymunedol fel dewis arall yn lle dedfrydau carchar tymor byr (h.y. y rhai o dan 12 mis o hyd). Y nod hefyd yw cyfyngu ar y boblogaeth yn y ddalfa, sydd wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf[20]. Mae'r diwygiadau hyn wedi'u cynnal yng nghyd-destun lleddfu pwysau ar garchardai gorlawn ond hefyd o ystyried cefndir o dystiolaeth sy'n dangos bod dedfrydau carchar tymor byr yn aml wedi methu ag ailsefydlu'r rhai sydd wedi'u carcharu a bod ganddynt gyfradd uwch o aildroseddu o'u cymharu ag opsiynau dedfrydu cymunedol[21]. Cyflawnir hyn drwy wneud y canlynol:

- Cyflwyno **rhagdybiaeth i ohirio dedfrydau carchar tymor byr.** Gall rhai troseddwyr sydd wedi torri gorchmynion llys fel gorchmynion atal a gorchmynion amddiffyn rhag stelcio neu sydd wedi torri telerau eu gorchmynion cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig fynd i'r carchar o hyd[22]. Bydd hyn yn cael ei ategu gan:-
    - Cynnydd yn y defnydd o **Ofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol** er mwyn cefnogi gwella yn sgil cyffuriau ac alcohol a chefnogi triniaeth iechyd meddwl[23]
    - Ehangu nifer yr Unigolion sy'n destun **monitro electronig**. Yr amcangyfrifon yw 22,000 o unigolion ychwanegol yn destun tagio bob blwyddyn[24]

- Ymestyn pwerau i **atal dedfrydau carchar hyd at uchafswm o dair blynedd**
    - Ar hyn o bryd gall llysoedd atal dedfrydau carchar hyd at uchafswm o ddwy flynedd. Bydd hyn yn cynyddu i uchafswm o dair blynedd ac yn golygu bydd oddeutu 8,858 o unigolion ychwanegol y flwyddyn o bosibl yn derbyn dedfryd ohiriedig y gallant ei chyflawni yn y gymuned (yn seiliedig ar ffigurau 2025)[25]

- **Ymestyn y cyfnod hiraf ar gyfer gorchmynion gohirio** o 6 mis i 12 mis
    - Mae cyfnodau gohirio yn caniatáu i droseddwyr ystyried eu hymddygiad a gwneud cynnydd o ran triniaeth alcohol neu driniaeth iechyd meddwl. Gall unigolion sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio'n dda ag amodau dderbyn dedfryd lai (megis gorchymyn dedfryd ohiriedig). Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i unigolion sy'n mynd trwy gyfnod o drawsnewid fel beichiogrwydd[26]

- Newid trefn fechnïaeth **i roi llai o ffafriaeth i gadw pobl yn y ddalfa pan nad oes gobaith gwirioneddol o allu rhoi'r person yn y ddalfa ar unwaith**[27]
    - Mae'r newid hwn yn ategu cyflwyno'r rhagdybiaeth i ohirio dedfrydau carchar byr drwy gyfyngu ar y defnydd o gadw unigolyn yn y ddalfa lle mae'n annhebygol y bydd yn cael ei roi yn y ddalfa ar unwaith (h.y. pan fo unigolyn yn debygol o dderbyn Gorchymyn Cymunedol neu Orchymyn Dedfryd Ohiriedig)
    - Yn ehangu argaeledd monitro electronig fel gofyniad mechnïaeth

- **Cyflwyno gofynion dedfrydau cymunedol newydd** megis parthau cyfyngu, gwaharddiadau rhag mynd i ddigwyddiadau chwaraeon a sefydliadau yfed a gwaharddiadau gyrru[28]

Rhyddhau o'r Ddalfa yn Gynharach

Mae Deddf Dedfrydu 2026 yn cyflwyno newidiadau i'r pwynt rhyddhau ar gyfer dedfrydau Dedfrydau Penodol Safonol (SDS) ac SDS+, gan newid pryd y caiff unigolion eu rhyddhau i ddyddiad cynharach. Mae hefyd yn gweithredu meini prawf llymach ar gyfer adalw, a disgwylir i hyn leihau'r boblogaeth o bobl sydd wedi cael eu hadalw yn y ddalfa, sydd wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf[29].

Mae'r diwygiadau hyn yn adeiladu ar fesurau brys cynharach, gan gynnwys SDS40 ac FTR48, a oedd yn yr un modd yn galluogi rhyddhau'n gynharach ac yn gosod cyfyngiadau ar adalw. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys:

- **Rhyddhau o'r Ddalfa yn gynharach, ar gam 33%** o ddedfryd carchar ar gyfer Dedfrydau Penodol Safonol [30]
    - Bydd unigolion sy'n cyflawni Dedfrydau Penodol Safonol, yn amodol ar ymddygiad da yn y carchar, yn gymwys i gael eu rhyddhau ar ôl cyflawni traean o'u dedfryd. Mae troseddwyr sy'n destun SDS+, Dedfrydau Penodol Estynedig (EDS) wedi'u heithrio o'r mesur hwn.
    - Mae'r mesur hwn hefyd yn dileu rhyddhau'n gynnar ar Gyrffyw Cyfyngu i'r Cartref (HDC), er y gellir gosod tagio electronig o hyd fel gofyniad ar ôl rhyddhau yn rhan o amodau trwydded goruchwyliaeth gymunedol.

- **Rhyddhau o'r Ddalfa yn gynharach, ar gam 50%** o ddedfryd carchar ar gyfer Dedfrydau Penodol Safonol dros 4 blynedd o hyd ar gyfer rhai troseddau treisgar a rhywiol difrifol **(SDS+)**[31]

  - Bydd unigolion sy'n cyflanwi SDS+, yn amodol ar ymddygiad da yn y carchar, yn gymwys i gael eu rhyddhau hanner ffordd drwy eu dedfryd. Mae troseddwyr sy'n destun Dedfrydau Penodol Estynedig (EDS) wedi'u heithrio o'r mesur hwn.
  - Yn yr un modd â Dedfrydau Penodol Safonol, caiff Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref (HDC) ei ddileu ar gyfer achosion SDS+

- Cyflwyno mesur **Adalw Cyfnod Penodol newydd o 56 diwrnod**

  - Mae nifer y carcharorion sy'n cael eu hadalw wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan roi pwysau ar leoedd mewn carchardai. Mae'r mesur hwn yn disodli'r cyfnodau adalw cyfnod penodol presennol o 14 a 28 diwrnod a fydd yn caniatáu mwy o amser i gefnogi troseddwyr i gael eu hail-ryddhau i'r gymuned.
  - Bydd y mesur hwn (gyda nifer o eithriadau) yn dileu'r defnydd o adalw safonol a oedd yn dychwelyd troseddwyr i'r ddalfa tan ddiwedd eu dedfryd neu nes bod y Bwrdd Parôl neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi cyfarwyddyd ar eu rhyddhau. Mae hyn yn golygu y bydd rhai unigolion sy'n destun adalw'n cael eu rhyddhau'n gynharach.

Newidiadau i Gwmpas Goruchwyliaeth

Cyflwynwyd y newidiadau canlynol i oruchwyliaeth gymunedol i greu capasiti yn y system Brawf i reoli'r galw cynyddol sy'n deillio o ryddhau o'r ddalfa yn gynharach a mwy o ddibyniaeth ar ddedfrydu cymunedol. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r dull a gymerwyd mewn mesurau brys cynharach drwy flaenoriaethu goruchwyliaeth lle mae'n fwyaf tebygol o gefnogi ailsefydlu a chanolbwyntio adnoddau ar achosion risg uwch.

- **Diddymu Goruchwyliaeth Ôl-Ddedfrydu**

  - Cyflwynwyd Goruchwyliaeth Ôl-Ddedfrydu yn 2015 i ymestyn goruchwyliaeth i'r rhai a ryddhawyd o ddedfrydau carchar tymor byr (h.y. dedfrydau o 2 flynedd neu lai) gyda'r nod o leihau aildroseddu. Bydd yr oruchwyliaeth hon yn cael ei dileu o fis Ebrill 2026.
  - Sicrhaodd Goruchwyliaeth Ôl-Ddedfrydu fod pob unigolyn a ryddhawyd o'r carchar yn cael ei oruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf am o leiaf blwyddyn. Ni fydd unigolion sy'n cael eu rhyddhau bellach yn derbyn y cyfnod 'ychwanegol' hwn o oruchwyliaeth a bydd y rhai sy'n cael eu rhyddhau o ddedfryd carchar tymor byr yn cael eu goruchwylio ar drwydded am gyfnod byr yn unig. Nodir y rhagwelir y bydd y rhagdybiaeth i ohirio dedfrydau tymor byr yn arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y dedfrydau carchar tymor byr.

- **Cynllun Dilyniant Ôl-Ryddhau**

  - Cyflwynir model dilyniant newydd ar gyfer Dedfrydau Penodol Safonol.

Bydd Dedfrydau Carchar yn cael eu rhannu'n dri cham i) y cam cadw yn y ddalfa ii) y cam goruchwylio dwys a iii) y cam olaf - y cam trwydded[32]. Ar ôl eu rhyddhau, y rhagdybiaeth yw y bydd unigolion yn cael eu tagio'n electronig.
    - Ni fydd rhai troseddwyr yn destun goruchwyliaeth weithredol gan y Gwasanaeth Prawf yn nhraean olaf eu dedfryd (mae eithriadau'n berthnasol i sicrhau y bydd y troseddwyr risg uchaf yn parhau i gael eu goruchwylio)[33]

- **Cynllun Dilyniant Dedfrydau Cymunedol**
    - Bydd goruchwyliaeth brawf yn dod i ben yn gynnar i droseddwyr sy'n cwblhau'n llawn yr holl ofynion a orchmynnwyd gan y Llys ac sy'n cwblhau eu cynllun dedfryd yn llawn[34]

- **Gostyngiad mewn Oriau Gwaith Di-dâl fel cymhelliant ar gyfer ymddygiad da**
    - Gellir cael gostyngiad o hyd at 25% mewn oriau gwaith di-dâl am gydymffurfio'n barhaus[35]

Newidiadau Amrywiol

Mae Newidiadau Amrywiol a wnaed yn Neddf Dedfrydu 2026[36] yn cynnwys:-

- **Cyflwyno Gorchmynion Gostwng Incwm**
    - Yn creu gofyniad dedfryd y gellir ei ychwanegu at ddedfryd ohiriedig, gan ei gwneud yn ofynnol i droseddwyr dalu cyfran o'u hincwm drwy gydol cyfnod y gorchymyn.
- **Diwygio dibenion statudol dedfrydu er mwyn pwysleisio amddiffyn dioddefwyr**
    - Yn diweddaru dibenion dedfrydu i'w wneud yn glir bod amddiffyn y cyhoedd yn cynnwys amddiffyn dioddefwyr troseddau
- **Dileu'r cyfyngiad 12 mis ar gwblhau Gwaith Di-dâl**
    - Yn ychwanegu hyblygrwydd drwy ddileu'r gofyniad bod Gwaith Di-dâl i'w gwblhau o fewn 12 mis
- **Diwygio'r Gofynion Gweithgareddau Adsefydlu (RAR)**
    - Yn disodli Gofynion Gweithgareddau Adsefydlu gyda gofyniad Prawf sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd i ymarferwyr prawf er mwyn teilwra ymyriadau i anghenion unigol y troseddwr
- **Creu Canfyddiad Barnwrol o Gam-drin Domestig**
    - Yn gwella adnabod troseddwyr cam-drin domestig
- **Mwy o drosolwg Democrataidd o'r Cyngor Dedfrydu**
    - Yn cryfhau trosolwg seneddol a gweinidogol o waith a chanllawiau'r Cyngor Dedfrydu
- **Egluro pwerau ar gyfer Atgyfeirio rhai Penderfyniadau'r Bwrdd Parôl i'r Uchel Lys**
    - Yn ymestyn pŵer yr Uchel Lys i adolygu penderfyniadau'r bwrdd parôl i gynnwys sefyllfaoedd lle cyfarwyddir rhyddhau unigolion heb amodau

trwydded


- **Bydd troseddwyr a anfonwyd yn ôl i'w gwlad eu hunain sy'n cyflawni dedfrydau cyfnod penodol am lofruddiaeth bellach yn destun rhyddhau ar ôl cyflawni dwy ran o dair o'u dedfryd carchar.**
    - Caeodd hyn "fan gwan (*loophole*)" a fyddai wedi golygu y byddai troseddwyr llofruddiaeth a anfonwyd yn ôl i'w gwlad eu hunain wedi cael eu rhyddhau ar ôl cyflawni 33% o'u dedfryd.
- **Bydd unigolion sy'n euog o rai troseddau diogelwch cenedlaethol yn cael eu rhyddhau yng ngham dwy ran o dair o'u dedfryd carchar.**

Effeithiau ar Garchardai a Phrawf

Carchardai: Cynnydd parhaus yn y boblogaeth

Rhagwelir y bydd y newidiadau yn Neddf Dedfrydu 2026 yn arwain at ostyngiad uniongyrchol ym mhoblogaeth carchardai dros yr un i ddwy flynedd nesaf. Fodd bynnag, wedi hynny bydd poblogaeth carchardai'n parhau i gynyddu (gweler ffigur 1 isod).

Ffigur 1: Poblogaeth Carchardai a Ragwelir (2026 – 2032)[37]




Nododd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei Datganiad Blynyddol diweddaraf ar Gapasiti Carchardai "when accounting for the Sentencing Act 2026 measures, the adult prison population is projected to rise to between 92,400 and 100,000 by November 2032, with a central estimate of 95,900"[38].

Mae'r boblogaeth a ragwelir hon yn parhau i fod yn uwch o lawer na phoblogaeth bresennol y carchar, sef 87,465 ar 30 Medi 2025[39]. Mae'r amcanestyniad canolog o 95,900 ym mis Tachwedd 2032 yn gynnydd o 9.6% uwchlaw lefelau 2025 (mae hyn yn golygu

oddeutu 8,400 yn fwy o bobl yn y carchar ledled Cymru a Lloegr o fewn y 7 mlynedd nesaf).

Mae poblogaeth carchardai Cymru a Lloegr wedi bron â dyblu, o 44,000 i 87,000 rhwng 1993 a 2012[40]. Bydd y Deyrnas Unedig yn parhau â chyfradd carcharu sy'n uwch na llawer o wledydd eraill yng Ngorllewin Ewrop.[41] Ni fydd y diwygiadau'n gwrthdroi'r duedd hirdymor o ddedfrydau carchar hirach a phoblogaeth carchardai gynyddol.

Carchardai: Cynyddu capasiti yng Nghymru



Mae Strategaeth Capasiti Carchardai 10 Mlynedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder [42] yn bwriadu darparu 14,000 o leoedd carchar ychwanegol yng Nghymru a Lloegr erbyn 2031. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhagweld y bydd digon o le o adeiladau carchar ychwanegol ac estyniadau i ddiwallu'r galw am leoedd carchar[43].

O'r 14,000 o leoedd carchar ychwanegol, bydd 425 o leoedd ychwanegol yng Nghymru. Bydd ehangu CEM Parc, sydd wedi'i gyhoeddi, yn darparu 345 o leoedd carchar caeedig ychwanegol.[44] Bydd ehangu CEM Prescoed yn darparu 80 o leoedd carchar agored ychwanegol[45].

Ar draws y chwe charchar yng Nghymru, y capasiti gweithredol uchaf ar hyn o bryd yw 5,611[46] (dyma'r nifer uchaf o garcharorion y gellir eu dal heb risg ddifrifol i ddiogelwch, trefn dda a gwaith rhedeg y drefn arfaethedig yn briodol ac mae'n uwch na 'chapasiti arferol y carchar'). Bydd cynnydd o 425 o leoedd yn cynyddu hyn i gapasiti gweithredol uchaf o 6,036 (cynnydd o 7.6% uwchlaw lefelau 2025).

Bydd y cynnydd ym mhoblogaeth carchardai yng Ngharchar Parc a Charchar Brynbuga/Prescoed yn cael goblygiadau ar y galw am wasanaethau gofal iechyd yn y carchardai hynny, gan gynnwys adnoddau staff a lle ymgynghori[47].


Carchardai: Poblogaeth carchardai sy'n heneiddio sydd ag anghenion iechyd cymhleth

Mae poblogaeth carchardai wedi bod yn heneiddio'n gyflym. Yng Nghymru a Lloegr, cynyddodd nifer y carcharorion dros 60 oed o 1,511 ym mis Mehefin 2002[48] i 6,711 ym mis Rhagfyr 2025[49]. Ym mis Mawrth 2024 roedd tua 17% o boblogaeth carchardai dros 50 oed[50].

Mae carcharorion hŷn yn fwy tebygol o fod ag anghenion iechyd cymhleth a bod angen rheoli cyflyrau iechyd cronig. Bydd carcharorion sy'n heneiddio'n fwy tebygol o ddioddef o

iechyd gwael sy'n gofyn am ofal iechyd a chymdeithasol mwy dwys. Yn aml, mae gan y rhai sydd yn y carchar iechyd gwaeth o'i gymharu â chyfoedion yn y gymuned oherwydd heneiddio cyflymach a briodolir i ffyrdd o fyw sy'n cynnwys caethiwed a digartrefedd[51].

Ffigur 2: Newidiadau ym Mhoblogaeth Carchardai yn ôl categori Oedran rhwng 2002 a 2025[52]



O'r herwydd, bydd galw mawr am ddarparu gofal iechyd mewn carchardai o hyd, yn sgil sbardunau deuol sef poblogaeth sy'n cynyddu a phoblogaeth sy'n heneiddio sydd ag anghenion mwy cymhleth o'u cymharu â'r rhai yn y gymuned. Mae'n debyg y bydd hyd yn oed y carchardai hynny na fyddant yn ehangu yn cael eu heffeithio gan y galw cynyddol am wasanaethau gofal iechyd.

Y Gwasanaeth Prawf: Pwysau cymunedol parhaus

Mae'r Gwasanaeth Prawf wedi treulio'r degawd diwethaf dan "straen sylweddol" a achoswyd gan dau ad-drefniad mawr a phrinder staff yn dilyn hynny[53]. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nod y Gwasanaeth yw lleihau llwythi gwaith drwy leihau goruchwyliaeth ar gyfer achosion risg isel a chanolig gan flaenoriaethu rheoli achosion risg uchel yn barhaus[54]. Bydd llwythi gwaith llai hefyd yn dilyn rhai newidiadau i Ddeddf Dedfrydu 2026 megis cael gwared ar Oruchwyliaeth Ôl-Ddedfrydu.

Fodd bynnag, bydd newidiadau eraill fel gwneud mwy o ddefnydd o ddedfrydu cymunedol drwy'r rhagdybiaeth yn erbyn dedfrydau tymor byr ac ymestyn cyfnodau gweithredol gorchmynion dedfrydau gohiriedig yn cynyddu nifer yr unigolion sy'n cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf yn y gymuned. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad yn nodi y bydd y newidiadau polisi yn Neddf Dedfrydu 2026 yn cynyddu'r galw cyffredinol ar y Gwasanaeth Prawf yn hytrach na lleihau'r galw[55].

Mae gan y Gwasanaeth Prawf raglen o newidiadau hefyd o'r enw 'Our Future Probation' a'i nod yw ysgogi effeithlonrwydd trwy ddefnyddio newidiadau digidol a phrosesau. Fodd

bynnag, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn awgrymu y bydd y newidiadau hyn yn dal i adael bwlch o 1,950 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn. Bydd hyn yn gofyn i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF gymryd camau pellach i gyfyngu ar gwmpas goruchwyliaeth brawf[56].

O'r herwydd, bydd galw hyd yn oed yn fwy am y gwasanaethau y mae'r Gwasanaeth Prawf yn eu cynnig i bobl ar brawf.

Pobl ar Brawf: Newid i Gwmpas Goruchwyliaeth


Bydd y Gwasanaeth Prawf yn cyflwyno newidiadau i gwmpas goruchwyliaeth, felly bydd rhai unigolion (fel arfer y rhai sy'n peri risg isel neu ganolig) yn derbyn goruchwyliaeth lai dwys a bydd y cymorth yn canolbwyntio ar gamau cynnar dedfryd ac yn cael ei leihau yn y camau diweddarach (gweler tudalen 6 am fwy o fanylion).

Bydd y newidiadau hyn yn creu capasiti ychwanegol yn y system. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai unigolion yn cael llai o gymorth (gweler y darlun isod).


Ffigur 3: Darlun o Newid yng Nghwmpas Goruchwyliaeth

Yn yr enghraifft hon, derbyniodd unigolyn ddedfryd carchar ar unwaith o 48 wythnos am Dorri Gorchymyn Atal (trosedd sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig).

Cyn Ailosod Prawf (Ebrill 2024), SDS40 (Medi 2024), Diddymu Goruchwyliaeth Ôl-Ddedfrydu (Ebrill 2026)*



Deddf Ôl-Dedfrydu 2026^



* O dan yr hen drefn ddedfrydu, byddai unigolyn yn treulio 50% o'i ddedfryd yn y ddalfa (24 wythnos), y gweddill ar drwydded (24 wythnos) a hyd at 52 wythnos ychwanegol o oruchwyliaeth ar ôl y ddalfa (28 wythnos). Efallai y byddai unigolyn wedi gallu gwneud cais am ryddhau'n gynharach ar Gyrffyw Cyfyngu i'r Cartref a chael ei ryddhau'n gynharach o bosibl.

^ O dan y drefn ddedfrydu newydd, byddai unigolyn yn treulio 33% o'i ddedfryd yn y ddalfa (16 wythnos), traean arall yn cael ei oruchwylio ar drwydded (16 wythnos) ac yna'r traean olaf byddai'n cael ei oruchwylio'n weithredol dim ond pe byddai'n bodloni'r meini prawf eithrio ar gyfer y model dilyniant, h.y. achosion sy'n Lefel 1-3 MAPPA, troseddwyr sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, rhai troseddau sy'n gysylltiedig â diogelwch cenedlaethol, wedi'u hasesu'n rhai sy'n peri risg Uchel neu Uchel Iawn o niwed difrifol neu'n oedolyn perthnasol a enwir mewn cynllun amddiffyn plant. Yn yr enghraifft hon, nid oedd y rhagdybiaeth yn erbyn dedfryd

carchar tymor byr yn berthnasol oherwydd bod y drosedd yn achos o dorri gorchymyn atal.

Yn gryno, byddai'r unigolyn wedi derbyn 52 wythnos o oruchwyliaeth ar ôl y ddalfa o dan yr hen drefn. O dan y drefn newydd byddai hyn yn cael ei leihau i naill ai 16 neu 32 wythnos. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith y bydd angen i'r Gwasanaeth Prawf ganolbwyntio ar roi parhad o ran cymorth ar waith (lle bo angen) gyda gwasanaethau eraill ar ôl i'r oruchwyliaeth ddod i ben.

Canfyddiadau Manwl

Amlinellir isod y canfyddiadau allweddol o'r gweithdy Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Gweler y fethodoleg atodol yn Rhan 1 o'r adroddiad am ragor o wybodaeth am sut y cynhaliwyd y gweithdy.

Er hwylustod y cyflwyniad, cyflwynir y canfyddiadau isod mewn pedair rhan sy'n grwpio'r newidiadau sydd o natur debyg. Y pedair adran yw:-

- **Mwy o Ddedfrydu Cymunedol**
- **Rhyddhau o'r Ddalfa yn Gynharach**
- **Newidiadau i Gwmpas Goruchwyliaeth**
- **Newidiadau Amrywiol**

Archwiliodd y gweithdy pa grwpiau poblogaeth oedd yn debygol o gael eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau arfaethedig a dadansoddodd y newidiadau arfaethedig o safbwynt penderfynyddion ehangach iechyd; gan ganolbwyntio'n benodol ar ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a all ddylanwadu ar ganlyniadau iechyd unigolion. Mae effeithiau posibl y newidiadau wedi'u categoreiddio'n 'effaith gadarnhaol' neu 'effaith negyddol anfwriadol'.

Mwy o Ddedfrydu Cymunedol

Adborth yn ymwneud â'r newidiadau canlynol:-

- Rhagdybiaeth i ohirio dedfrydau carchar tymor byr
- Ymestyn pwerau i atal dedfrydau carchar hyd at uchafswm o dair blynedd
- Ymestyn y cyfnod hiraf ar gyfer gorchmynion gohirio
- Newidiadau i fechnïaeth i roi llai o ffafriaeth i gadw pobl yn y ddalfa pan nad oes gobaith gwirioneddol o allu rhoi'r person yn y ddalfa ar unwaith

Ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
Deiet/maeth Gall unigolion gael mynediad at ystod ehangach o opsiynau bwyd iachach a mwy amrywiol yn y gymuned[57] – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***	**Deiet/maeth** Efallai y bydd rhai unigolion yn ei chael hi'n anodd fforddio bwyd maethlon neu gallant brofi diffyg diogeledd bwyd, tra byddai prydau sylfaenol wedi'u gwarantu yn y ddalfa – ***Pobl ar Incwm Isel***
Defnyddio sylweddau Mae dedfrydu cymunedol yn lleihau cysylltiad â sylweddau niweidiol neu anhysbys sydd ar gael yn gyffredin mewn carchardai – ***Pobl sy'n defnyddio sylweddau***	**Defnyddio sylweddau** Mae'r rhan fwyaf o garchardai yn darparu staff gofal iechyd bob awr o'r dydd, bob dydd i gefnogi unrhyw achos o orddos cyffuriau neu adweithiau niweidiol. Nid yw'r lefel hon o fynediad at ofal iechyd yr un fath yn y gymuned ac efallai y bydd mwy o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau – ***Pobl sy'n defnyddio sylweddau***
Bwydo ar y fron Mae llai o ddefnydd o ddedfrydau carchar byr (yn enwedig i fenywod) yn atal tarfu ar fwydo ar y fron pan fydd mamau'n mynd i'r ddalfa – ***Plant a Phobl Ifanc, Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Menywod (yn benodol y rhai sy'n Famau)***	**Gweithgarwch corfforol** Mae carchardai'n cynnig cyfleusterau campfa am ddim a hawdd eu cyrraedd. Yn y gymuned, gall cost neu fynediad gyfyngu ar weithgarwch corfforol – ***Pobl ar Incwm Isel, Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***
	Defnyddio sigaréts Fe wnaeth gwaharddiadau ysmygu mewn carchardai (yng Nghymru ers 2016) gynyddu nifer y therapïau disodli nicotin a gwella iechyd anadlol[58]. Efallai y bydd y rhai sy'n destun dedfrydau Cymunedol yn llai tebygol o roi'r gorau i ysmygu. – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***

Dylanwadau Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod Mae Dedfrydau Cymunedol yn lleihau'r amser y mae rhieni a phlant wedi'u gwahanu o ganlyniad i'r carchar. Mae carcharu yn aml yn arwain at blant yn cael eu lleoli gyda pherthnasau neu ofalwyr maeth - ***Plant a Phobl Ifanc***	**Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** Gall rhai rhieni neu'r rhai sy'n rhoi gofal sy'n aros yng nghartref y teulu gael effaith negyddol ar blant. Gall dedfryd carchar gynnig seibiant i rai plant rhag profi esgeulustod, cam-drin corfforol, rhywiol, neu gamweithrediad arall yn y cartref – ***Plant a Phobl Ifanc***
Perthnasoedd teuluol, trefniadaeth, a rolau Rhaid i fenywod gyflawni dedfrydau carchar y tu allan i Gymru, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i gynnal cysylltiadau â phlant a'r teulu ehangach. Bydd dedfrydau cymunedol yn cefnogi cysylltiadau teuluol cryfach - ***Plant a Phobl Ifanc, Menywod (Mamau)*** Mae dedfrydau carchar yn effeithio ar gynnal cysylltiadau teuluol. Mae cysylltiadau teuluol gwan yn gysylltiedig â chanlyniadau ailsefydlu gwaeth. Gall dedfrydu cymunedol gefnogi cysylltiadau teuluol cryfach a gwella canlyniadau ailsefydlu[59] – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***	**Ethos diwylliannol ac ysbrydol** Mae carchardai'n cynnig mynediad da at arweinwyr ffydd a chymunedau crefyddol. Yn y gymuned, efallai y bydd unigolion yn llai tebygol o gael mynediad at y cymunedau hyn – ***Pobl yn y system cyfiawnder troseddol*** **Trais domestig** Gellir defnyddio dedfrydau carchar fel cyfnod o ddiogelwch sy'n cynnig seibiant i ddioddefwyr cam-drin domestig[60] – ***Dioddefwyr Cam-drin Domestig***
Ymlyniad Rhieni â'u Babanod Mae gan unedau mam a baban gapasiti cyfyngedig (ac maent i gyd wedi'u lleoli yn Lloegr) felly nid ydynt yn hygyrch i bob mam[61], ac yn yr unedau hyn gall amser mamau a babanod gyda'i gilydd fod yn gyfyngedig. Mae dedfrydau cymunedol yn helpu i hyrwyddo bondio cynnar - ***Plant a Phobl Ifanc, Menywod (Mamau)***	**Ymdeimlad o berthyn / Ynysigrwydd Cymdeithasol ac Unigrwydd** Gall rhai unigolion (yn enwedig y rhai sydd wedi treulio cryn dipyn o amser yn y ddalfa) deimlo ymdeimlad cryfach o gymuned yn y carchar nag yn y byd y tu allan. Gall dedfrydu cymunedol gynyddu unigrwydd – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***
Pwysau gan Gyfoedion Gall cyfyngu ar ddedfrydau carchar tymor byr leihau cyfleoedd i smyglo cyffuriau anghyfreithlon i garchardai. Gall unigolion gael eu gorfodi gan eraill i gymryd rhan yn yr ymddygiad hwn drwy drais neu fygwth neu i dalu dyledion – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Pobl sy'n defnyddio sylweddau***	
Cyfalaf Cymdeithasol, Cymorth a Rhwydweithiau / Ynysigrwydd Cymdeithasol ac Unigrwydd Nid oes gan unigolion yn y ddalfa fynediad at y cyfryngau cymdeithasol sy'n chwarae rhan fwyfwy amlwg wrth greu a chynnal cysylltiadau yn y gymuned, a gyda theulu a chyfoedion. Bydd mwy o ddefnydd o ddedfrydu cymunedol yn caniatáu i unigolion gynnal y cysylltiadau hyn ac osgoi teimladau o ynysigrwydd ac unigrwydd – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***	

Hiliaeth a Gwahaniaethu Mae unigolion o gefndiroedd lleiafrifol yn profi gwahaniaethu yn y ddalfa[62]. Gall dedfrydu cymunedol leihau cysylltiad â hiliaeth a mathau eraill o wahaniaethu. – ***Grwpiau Trawsryweddol, Du a Lleiafrifoedd Ethnig***	

Iechyd Meddwl a Lles

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
Llesiant emosiynol, boddhad bywyd, neu wydnwch Gall lleoliadau carchar effeithio'n negyddol ar lesiant meddyliol unigolion, yn enwedig y rhai sydd â hanes o drawma, anawsterau iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes a phrofiadau bywyd niweidiol. Gall hyn waethygu mewn lleoliad dalfa oherwydd ynysigrwydd, diffyg cymorth a chael eu gwahanu o deuluoedd. Bydd dedfrydau cymunedol yn helpu i osgoi'r effeithiau niweidiol hyn – ***Pobl â chyflyrau iechyd meddwl*** Mae achosion o hunanladdiad yn uwch mewn carchardai nag yn y gymuned[63]. Felly, gallai mwy o ddefnydd o ddedfrydau cymunedol leihau nifer y marwolaethau yn y ddalfa – – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***	**Llesiant emosiynol, boddhad bywyd, neu wydnwch** Mae achosion o hunanladdiad a hunan-niweidio yn llawer uwch ymhlith unigolion sydd â hanes o gyflawni troseddau treisgar a'r rhai sy'n cyflawni dedfrydau oes.[64] . Gyda'r newidiadau i gyfansoddiad carcharorion yn y ddalfa (h.y. mwy o garcharorion yn cyflawni dedfrydau hirach am droseddau mwy difrifol) gall hunanladdiad a hunan-niweidio ddod yn fwy cyffredin ymhlith gweddill y boblogaeth mewn carchardai – ***Staff yn y System Cyfiawnder Troseddol***
	Ansicrwydd neu Orbryder Mae mesurau brys i reoli capasiti carchardai wedi arwain at newidiadau sylweddol i'r rhai sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol. Gall newidiadau i'r Ddeddf Dedfrydu greu ansefydlogrwydd pellach i staff cyfiawnder troseddol. Efallai y bydd llwythi gwaith cynyddol ar gyfer swyddogion prawf a staff eraill mewn asiantaethau cymorth fel gwasanaethau tai, cymorth cyffuriau ac alcohol ac iechyd meddwl – ***Staff yn y System Cyfiawnder Troseddol***

Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
Ansawdd tai a deiliadaeth Gall dedfrydau carchar arwain at golli tai o ganlyniad i fethu â thalu taliadau morgais a thaliadau rhent, a budd-dal tai yn cael eu hatal ar ôl 13 wythnos neu fwy yn y ddalfa. Mae dedfrydau cymunedol yn helpu unigolion i gadw eu llety, gan leihau'r risg o ddigartrefedd a lleddfu'r pwysau ar wasanaethau tai brys – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Cyfiawnder Troseddol a Sefydliadau'r Trydydd Sector*** Mae pobl â chyflyrau fel niwroamrywiaeth, dementia, neu anableddau eraill yn aml yn ei chael hi'n anodd sicrhau tai addas ar ôl cael eu rhyddhau. Mae gallu aros mewn eiddo addasedig presennol wrth gyflawni dedfrydau cymunedol yn fuddiol – ***Pobl ag anableddau/anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu***	**Ansawdd tai a deiliadaeth** Efallai y bydd unigolion yn fwy tebygol o gynnal tai yn y gymuned, ond gall y tai hyn fod o ansawdd gwael a all gael effeithiau negyddol ar iechyd – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Pobl ar incwm isel*** Mae carchardai yn ddi-fwg. Efallai na fydd tai yn y gymuned, yn enwedig llety a rennir, yn ddi-fwg, gan arwain at ddod i gysylltiad mwy â mwg ail-law a all gael goblygiadau iechyd – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Pobl ar incwm isel***
Diogelwch Cymunedol Mae dedfrydau carchar tymor byr yn cynnig cyfnod byr o analluogi lle nad yw troseddwyr yn gallu troseddu yn y gymuned, fodd bynnag, mae ymchwil wedi dangos bod gan y dedfrydau hyn y gyfradd uchaf o aildroseddu. Bydd mwy o ddefnydd o ddedfrydau cymunedol yn fwy effeithiol wrth leihau lefelau troseddu yn y tymor hwy.[65] - ***Dioddefwyr, Cymuned***	**Diogelwch Cymunedol** Mae dedfrydau carchar yn tynnu unigolion o'r gymuned gan amddiffyn y gymuned rhag troseddu (o leiaf am gyfnod o amser). Gallai mwy o unigolion sy'n cyflawni dedfrydau cymunedol gynyddu pryderon cymunedol ynghylch diogelwch a lefelau troseddu yn eu cymunedau – ***Dioddefwyr, Cymuned***
Mynediad at fannau gwyrdd a naturiol Yn aml, mae gan garcharorion fynediad cyfyngedig at fannau awyr agored a byddant yn gallu mwynhau mwy o fannau gwyrdd. Mae dedfrydau cymunedol fel gwaith di-dâl yn aml yn cael eu gwneud mewn mannau gwyrdd gan arwain at ddod i gysylltiad mwy – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***	
Sŵn ac Arogleuon Gall carchardai fod yn lleoedd llethol i'r rhai â niwroamrywiaeth oherwydd lefelau sŵn ac arogleuon felly bydd dedfrydau cymunedol yn well i'r unigolion hyn. – ***Pobl â chyflyrau iechyd meddwl***	

Iechyd a Diogelwch Mae amgylchedd y carchar yn aml yn anodd i unigolion â dementia ac anawsterau corfforol eraill oherwydd diffyg addasiadau i'r rhai â'r cyflyrau hyn. Bydd dod i gysylltiad llai â'r amgylchedd hwn trwy fwy o ddedfrydu cymunedol yn fuddiol - ***Pobl ag anableddau/anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu***	

Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
Diweithdra Mae unigolion sy'n mynd i'r ddalfa mewn perygl o golli'u swydd ac mae ystadegau'n dangos bod lefelau cyflogaeth dair gwaith yn uwch ymhlith unigolion sy'n destun goruchwyliaeth gymunedol o'u cymharu â'r rhai a gafodd eu rhyddhau ar ôl cyflawni dedfryd carchar.[66] Mae'n debygol, felly, y bydd cyflogaeth yn cael ei heffeithio'n gadarnhaol gan fwy o ddefnydd o ddedfrydu cymunedol – ***Poblogaeth Oedolion yn Gyffredinol***	**Tlodi gan gynnwys tlodi bwyd a thanwydd** Nid oes gan unigolion yn y Deyrnas Unedig sydd â statws cyfreithiol dros dro, ansicr, neu ddim statws cyfreithiol o gwbl unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus fel budd-daliadau lles, tai cyhoeddus, a chymorth arall gan y llywodraeth. Mae'r boblogaeth hon yn wynebu heriau i gynnal eu hunain ac efallai y bydd hi'n anodd iddynt ymroi i ddedfrydau cymunedol – ***Pobl sy'n ceisio Lloches (a mudwyr eraill)***

Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
Polisïau'r Llywodraeth Gall defnydd mwy o ddedfrydu cymunedol arwain at ganlyniadau hirdymor gwell drwy dorri cylch y carchar gan gynnwys gostyngiad mewn cyfraddau aildroseddu a lleihau'r galw ar adnoddau a ariennir gan y llywodraeth fel tai, addysg, budd-daliadau cymdeithasol, ac ati. – ***Sefydliadau Cyfiawnder Troseddol a Thrydydd Parti, Dioddefwyr, Cymuned***	**Trydydd Sector a Gwirfoddoli** Bydd mwy o alw am wasanaethau cymunedol gan fwy o unigolion sy'n cyflawni dedfrydau cymunedol; bydd hyn yn effeithio ar wasanaethau a ariennir gan y llywodraeth yn ogystal ag asiantaethau'r trydydd sector sy'n darparu cymorth i unigolion yn y system cyfiawnder troseddol. Efallai nad yw'r model ariannu presennol yn ddigonol i ymdopi â'r galw cynyddol a allai arwain at lai o gymorth cyffredinol i unigolion. - ***Cyfiawnder Troseddol a Sefydliadau Trydydd Parti, Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***

Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol

Gwasanaethau Meddygol ac Iechyd

Bydd unigolion sy'n cyflawni dedfrydau cymunedol yn gallu cynnal eu cysylltiadau â gwasanaethau cymunedol, fel eu practis meddyg teulu, gweithiwr iechyd meddwl, a chadw lle ar y rhestr aros am driniaeth ysbyty sydd efallai ddim yn wir bob amser yn y carchar.[67] Mae bod yn y ddalfa yn tarfu ar y cysylltiadau hyn yn aml - ***Pobl â Chyflyrau Iechyd Hirdymor, Pobl ag anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu, Pobl â chyflyrau iechyd***

Efallai na fydd carcharorion ag anawsterau corfforol bob amser yn gallu cael mynediad at bob gwasanaeth yn y carchar oherwydd cynllun ffisegol carchardai. Mae'n debyg y bydd gwasanaethau cymunedol yn gallu diwallu anghenion yr unigolion hyn yn well. - ***Pobl ag anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu***

Mae dedfrydau carchar tymor byr ac unigolion o'r tu allan i ardaloedd daearyddol yn aml yn cael anawsterau wrth drefnu apwyntiadau, cofrestru gyda meddygon teulu, a pharhau i gael meddyginiaeth ar bresgripsiwn ar ôl cael eu rhyddhau. Gall llai o ddedfrydau tymor byr ganiatáu mwy o amser i gynllunio rhyddhau unigolion er mwyn osgoi anawsterau o'r fath. - ***Pobl â Chyflyrau Iechyd Hirdymor***

⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol

Gwasanaethau meddygol ac iechyd

Mae sgrinio am Feirysau a Gludir yn y Gwaed ar gael fel gwasanaeth optio allan ar gyfer carcharorion sy'n cael eu derbyn i garchardai. Maent yn helpu i nodi unigolion â chlefydau fel Hepatitis B, Hepatitis C a HIV ac yn eu cynorthwyo i gael mynediad at driniaeth. Mae'r prawf sgrinio hwn yn chwarae rhan werthfawr ym maes iechyd y cyhoedd wrth ganfod clefydau trosglwyddadwy, a chyfyngu ar drosglwyddo'r heintiau hyn ymhellach. Nid yw profion o'r fath ar gael mor eang ar draws pob safle Prawf[68] – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***

Gall profion sgrinio iechyd a darpariaeth gofal iechyd barhaus yn y carchar nodi afiechydon cronig a chael eu defnyddio fel llwybr i driniaeth. Efallai bod yr unigolion hyn yn llai tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau iechyd yn y gymuned – ***Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor; Pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau***

Mae profion sgrinio am Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol ar gael mewn carchardai. Er bod y gwasanaeth hwn hefyd ar gael yn y gymuned, efallai y bydd unigolion yn llai tebygol o gael mynediad at y gwasanaeth hwn – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau***

Mae amseroedd aros apwyntiadau deintydd a meddyg teulu weithiau'n fyrrach yn y ddalfa nag yn y gymuned. Felly, efallai y bydd yn rhaid i'r unigolion hyn aros yn hirach am driniaeth yn y gymuned – ***Y boblogaeth oedolion gyffredinol***

Gwasanaethau Lles a Chyfreithiol Efallai y bydd llai o alw am wasanaethau darparwyr y Trydydd Sector sy'n cefnogi unigolion yn y system cyfiawnder troseddol oherwydd y gostyngiad mewn dedfrydau tymor byr. Bydd hyn yn caniatáu iddynt ganolbwyntio eu hadnoddau ar y rhai sydd fwyaf mewn angen (e.e. bydd mwy o ddefnydd o ddedfrydu cymunedol yn arwain at fwy o unigolion yn cynnal llety felly bydd llai o alw am wasanaethau cymorth llety trydydd sector) - ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Cyfiawnder Troseddol a Sefydliadau Trydydd Parti***	**Addysg a Hyfforddiant / Cyngor Gyrfaoedd** Mae addysg a hyfforddiant galwedigaethol mewn carchardai yn gwella cyflogadwyedd carcharorion ar ôl eu rhyddhau. Mae mynediad at y gwasanaethau hyn yn cael ei gymell drwy'r Cynllun Cymhellion a Breintiau a Enillwyd a oedd ar waith yn y carchar – efallai na fydd unigolion yn y gymuned mor frwdfrydig i gael mynediad at y cymorth hwn. Efallai hefyd fod llai o gyfleoedd cymorth hyfforddiant ac addysg ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch yn y gymuned. – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Di-waith neu Heb Waith*** Cynigir cymorth wedi'i deilwra i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddi-waith mewn carchardai er mwyn cynorthwyo i ddatblygu sgiliau, ymgymryd â hyfforddiant a chael cymwysterau i wella eu rhagolygon cyflogaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Yn aml mae cyfleoedd gyda chyflogwyr sy'n cymryd rhan mewn Byrddau Cynghori ar Gyflogaeth. Efallai na fydd cymorth tebyg mor hawdd ei gael yn y gymuned. – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Di-waith neu Heb Waith***
	Trafnidiaeth gan gynnwys parcio, trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol Mae unigolion yn y system cyfiawnder troseddol yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus ac efallai na fyddant yn gallu cael mynediad at wasanaethau cymunedol os nad yw trafnidiaeth gyhoeddus yn dda yn eu hardal. – ***Pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, ynysig, neu wedi'u gorboblogi***
	Gwasanaethau Gofal Eraill Mae amgylcheddau carchar yn darparu strwythur a threfn arferol, gan ei gwneud hi'n haws cysylltu rhai unigolion anodd eu denu â gwasanaethau fel cymorth sylweddau, gofal iechyd, gwasanaethau llesiant meddyliol, a rhaglenni cyflogaeth neu hyfforddiant. Efallai ei bod yn anoddach cysylltu â'r unigolion hyn yn y gymuned – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***

Rhyddhau o'r Ddalfa yn Gynharach

Mae'r adborth yn ymwneud â'r newidiadau canlynol:-

- Model Dilyniant yn y Ddalfa; rhyddhau ar ôl cyflawni 33% o'r ddedfryd ar gyfer dedfrydau penodol safonol (SDS) ac ar ôl cyflawni 50% ar gyfer dedfrydau SDS+
- Cyflwyno adalw cyfnod penodol o 56 diwrnod a chyfyngu ar gymhwysedd am adalw safonol

Ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
Defnyddio sylweddau, meddyginiaeth ddi-bresgripsiwn, a chamddefnyddio meddyginiaeth ar bresgripsiwn Mae llai o amser yn y ddalfa yn lleihau cysylltiad â sylweddau niweidiol fel cannabinoidau synthetig (e.e., "sbeis") a chyffuriau eraill y mae carcharorion yn eu defnyddio nad oes ganddynt wybodaeth fawr am eu cynnwys gwirioneddol sy'n cynyddu'r risg o adweithiau niweidiol a gorddosau - ***Pobl sy'n defnyddio sylweddau***	**Defnyddio sylweddau, meddyginiaeth ddi-bresgripsiwn, a chamddefnyddio meddyginiaeth ar bresgripsiwn** Mae carchar yn gyfle i ddadwenwyno ac yn gyfle i fyfyrio ar gamddefnyddio sylweddau. Gall dedfrydau byrrach olygu llai o amser i ddadwenwyno o ddefnyddio cyffuriau a chwblhau triniaeth cyn cael eu rhyddhau - ***Pobl sy'n defnyddio sylweddau***
Bwydo ar y fron Gall rhyddhau'n gynharach helpu gyda pharhau i fwydo ar y fron. Anogir mamau i fwydo ar y fron pan fyddant yn y carchar, fodd bynnag, mae amser yn gyfyngedig ar gyfer treulio amser a chreu cysylltiad â'u babanod – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Menywod (yn benodol y rhai sy'n famau)***	**Deiet/Maeth** Efallai y bydd rhai unigolion yn ei chael hi'n anodd fforddio bwyd maethlon neu gallant brofi diffyg diogeledd bwyd, tra byddai prydau bwyd sylfaenol wedi'u gwarantu yn y ddalfa. – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Pobl ar Incwm Isel***

Dylanwadau Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
Perthnasoedd teuluol a threfniadaeth Bydd rhyddhau'n gynnar yn lleihau'r amser y mae rhieni a phlant wedi'u gwahanu ac yn helpu i gynnal cysylltiadau cryfach â'r teulu ehangach – ***Plant a Phobl Ifanc, Teuluoedd Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Rhieni***	**Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (h.y. cam-drin corfforol, emosiynol, neu rywiol)** Gall rhai troseddwyr sy'n dychwelyd i gartref y teulu yn gynharach gynyddu'r risg o esgeulustod, cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, neu gysylltiad ag anhwylderau cartref eraill – ***Plant a Phobl Ifanc***
Ymlyniad rhieni â'u babanod (cysylltiad cynnar cryf rhwng baban a'r prif ofalwr) Bydd rhyddhau'n gynnar yn cyfyngu ar rieni a phlant yn cael eu gwahanu, a all gael effeithiau negyddol ar ddatblygiad emosiynol, ymddygiad a chyflawniad academaidd plant –***Plant a Phobl Ifanc***	**Trais domestig** Gall rhyddhau'n gynnar roi dioddefwyr mewn perygl lle mae perthnasoedd yn anniogel[i] – ***Dioddefwyr***
Ymdeimlad o berthyn Bydd cyfnod byrrach yn y ddalfa yn lleihau'r aflonyddwch i gysylltiadau cymunedol unigolion a gall gefnogi ailintegreiddio mwy di-drafferth ***– Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***	**Ymdeimlad o berthyn** Gall rhai unigolion (yn enwedig y rhai sydd wedi treulio cryn dipyn o amser yn y ddalfa) deimlo ymdeimlad cryfach o gymuned yn y carchar nag yn y byd y tu allan. Gall rhyddhau'n gynharach gynyddu unigrwydd – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***
	Pwysau gan Gyfoedion Gall cyfnod adalw byrrach (adalw am 56 diwrnod o'i gymharu ag adalw safonol[ii]) gynyddu cyfleoedd i smyglo cyffuriau anghyfreithlon i'r carchar. Gall rhai unigolion gael eu gorfodi gan eraill i gymryd rhan yn yr ymddygiad hwn trwy drais neu fygwth neu i dalu dyledion sy'n gysylltiedig â chyffuriau – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Pobl sy'n defnyddio sylweddau***

[i] Er y gellir rhyddhau cyflawnwyr cam-drin domestig o'r ddalfa, byddant yn destun goruchwyliaeth gymunedol a mesurau cyfyngol fel cyrffyw electronig a pharthau gwaharddedig er mwyn lleihau'r risg i ddioddefwyr.

[ii] Bydd rhai cyfnodau adalw'n hirach hefyd. Er enghraifft, gallai adalw am gyfnod penodol o 56 diwrnod yn lle 14 neu 28 diwrnod leihau cyfleoedd i smyglo cyffuriau i'r carchar.

Iechyd Meddwl a Lles

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
Ansicrwydd neu Orbryder Bydd y model dilyniant yn y ddalfa yn arwain at ddyddiadau rhyddhau mwy rhagweladwy (ar ôl cyflawni 33% o'r ddedfryd i'r rhai ag ymddygiad da) o'i gymharu â'r system flaenorol pan oedd amrywiol gynlluniau rhyddhau brys yn y ddalfa a chyfleoedd i gael eu rhyddhau'n gynnar ar Gyrffyw Cyfyngu i'r Cartref (a fydd yn cael ei ddileu). Bydd hyn yn lleihau gorbryder ac ansicrwydd i garcharorion ac i ddioddefwyr – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Dioddefwyr*** Gall lleoliadau carchar effeithio'n negyddol ar lesiant meddyliol unigolion, yn enwedig y rhai sydd â hanes o drawma, anawsterau iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes a phrofiadau bywyd niweidiol. Bydd rhyddhau'n gynharach yn cyfyngu ar gysylltiad â'r amgylchedd hwn. – ***Pobl â chyflyrau iechyd meddwl***	**Ansicrwydd a Gorbryder** Pan fydd y newid i ddedfrydau penodol safonol (o 40% i 33%) yn cael ei weithredu gyntaf, bydd dyddiad rhyddhau rhai unigolion yn newid i fod yn ddyddiad a fydd yn golygu y byddant yn cael eu rhyddhau yn syth. Ar hyn o bryd mae ansicrwydd pryd y bydd y newid hwn yn cael ei weithredu a allai achosi gorbryder i garcharorion a dioddefwyr – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Dioddefwyr*** Bydd gweithredu'r newidiadau hyn yn achosi ansicrwydd a gorbryder i staff oherwydd cynnydd yn y llwyth gwaith. Gallai hyn effeithio ar swyddogion carchar, swyddogion prawf, a staff eraill mewn asiantaethau cymorth fel tai, cymorth cyffuriau ac alcohol a gwasanaethau iechyd meddwl. – ***Staff yn y System Cyfiawnder Troseddol***
Llesiant emosiynol, boddhad bywyd, neu wydnwch Gall amgylchedd y carchar waethygu cyflyrau iechyd meddwl a gall rhyddhau'n gynharach leihau achosion o hunanladdiad a hunan-niweidio – ***Pobl â chyflyrau iechyd meddwl***	
Teimlo'n Ddiogel Bydd mesurau fel rhyddhau'n gynnar yn arwain at leihau gorlenwi. Mae ymchwil yn dangos, pan fydd carcharor mewn cell orlawn, bod cynnydd o 19% yn y tebygolrwydd ohono'n rhan o ymosodiad[69]. Felly, dylai fod gostyngiad mewn trais a theimlad gwell o ddiogelwch. – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***	

Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
Sŵn ac Arogleuon Gall carchardai fod yn lleoedd llethol i'r rhai â niwroamrywiaeth oherwydd lefelau sŵn ac arogleuon. Bydd rhyddhau'n gynnar yn lleihau cyswllt â'r amgylchedd hwn – ***Pobl â chyflyrau iechyd meddwl***	
Iechyd a Diogelwch Mae amgylchedd y carchar yn aml yn anodd i unigolion â dementia ac anawsterau corfforol eraill oherwydd diffyg addasiadau i'r rhai â'r cyflyrau hyn. Bydd llai o gyswllt â'r amgylchedd hwn trwy ryddhau'n gynnar yn fuddiol – ***Pobl ag anableddau/anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu***	

Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
Gwasanaethau meddygol ac iechyd (parhad gofal) Bydd cyfnodau adalw am gyfnod penodol hirach yn caniatáu amser ychwanegol i gynllunio ar gyfer ail-ryddhau a sicrhau lefelau priodol o gymorth, megis gyda gwasanaethau iechyd meddwl, llety a chamddefnyddio sylweddau. – ***Pobl â chyflyrau iechyd meddwl, Pobl sy'n defnyddio sylweddau***	**Gwasanaethau Meddygol/Gofal Iechyd (cyffredinol)** Nid oes stigma ynghlwm wrth gael mynediad at ofal iechyd mewn carchardai, yn wahanol i wasanaethau cymunedol lle gall unigolion deimlo eu bod wedi'u stigmateiddio. Efallai y bydd angen annog unigolion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar i gael mynediad at wasanaethau cymunedol. Gall unigolion sydd â thag monitro electronig ar eu ffêr deimlo eu bod wedi'u stigmateiddio yn enwedig – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***
Gwasanaethau meddygol ac iechyd (iechyd meddwl) Mae cyfyngu ar ddedfrydau carchar tymor byr yn golygu y bydd y rhan fwyaf o garcharorion bellach yn gwasanaethu dedfrydau hirach (h.y. dedfrydau o flwyddyn neu hirach) gan ddarparu digon o amser i asesu unigolion â chyflyrau iechyd meddwl cymhleth, i greu cynlluniau triniaeth ac i garcharorion ymgysylltu â'r rhain. Yn benodol menywod sydd ag anghenion mwy cymhleth – ***Pobl â chyflyrau iechyd meddwl***	**Gwasanaethau meddygol ac iechyd (iechyd meddwl)** Gall rhyddhau'n gynnar o'r carchar amharu ar driniaeth iechyd meddwl bresennol unigolyn yn y ddalfa – ***Pobl â chyflyrau iechyd meddwl***
Gwasanaethau gofal eraill (cymorth gyda chamddefnyddio sylweddau) Mae cynlluniau triniaeth yn cymryd llawer o amser i'w cynllunio a'u trefnu, ac weithiau roedd y rhain yn cael eu rhwystro gan gynlluniau rhyddhau'n gynnar (mesurau eithriadol blaenorol). Bydd y model dilyniant newydd yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch dyddiadau rhyddhau gan ganiatáu cynllunio triniaeth yn y ddalfa yn fwy effeithiol – ***Pobl sy'n defnyddio sylweddau***	**Gwasanaethau Meddygol/Gofal Iechyd (deintyddol)** Mewn rhai carchardai mae rhestr aros fyrrach ar gyfer triniaeth ddeintyddol nag yn y gymuned. Gall unigolion hefyd ei chael hi'n anodd cael mynediad at ofal deintyddol a ddarperir gan y GIG yn y gymuned – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***
Gwasanaethau gofal eraill (cymorth gyda chamddefnyddio sylweddau/gofal iechyd cyffredinol) Bydd dyddiadau rhyddhau mwy rhagweladwy i garcharorion o help o safbwynt gwaith cyd-gysylltiedig gwell rhwng y darparwr gofal iechyd/cymorth defnyddio sylweddau yn y carchar a'r gwasanaethau cymunedol. Mae'r cyfnod rhyddhau yn gyfnod arbennig o fregus i droseddwyr ac os na chaiff ei reoli'n gywir mae'r risg o orddos yn llawer uwch – ***Pobl sy'n defnyddio sylweddau***	**Gwasanaethau meddygol ac iechyd** Ar gyfer troseddwyr sy'n byw ymhellach i ffwrdd o'r carchardai y cânt eu lleoli ynddynt, efallai bod yna effaith sylweddol ar eu gallu i gael mynediad at wasanaethau ar ôl cael eu rhyddhau. Gall rhannu gwybodaeth bersonol ar draws byrddau iechyd/ffiniau effeithio ar barhad gofal. – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***

	Gwasanaethau gofal eraill (triniaeth breswyl) Gall newid dyddiadau rhyddhau unigolion i ddyddiadau cynharach amharu ar gynlluniau symud ymlaen i driniaeth breswyl ar gyfer cyffuriau ac alcohol. Fel arfer, mae'r cymorth hwn ar gyfer dyddiad penodol ac efallai na fydd modd darparu ar gyfer newidiadau i'r broses ryddhau, a gall hyn arwain at golli cymorth – ***Pobl sy'n defnyddio sylweddau***
	Addysg a Hyfforddiant Mae gan garcharorion fynediad at wasanaethau cymorth cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg nad ydynt efallai mor hawdd eu cael yn y gymuned. Gall unigolion fod wrthi'n cwblhau cwrs neu gymhwyster na ellir ei barhau yn y gymuned – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***

Newidiadau i Gwmpas Goruchwyliaeth Gymunedol

Adborth yn ymwneud â'r newidiadau canlynol:-

- Diddymu Goruchwyliaeth Ôl-Ddedfrydu (PSS) sy'n cefnogi pobl sy'n gadael y carchar am y flwyddyn sy'n dilyn dedfryd carchar tymor byr
- Cynllun Dilyniant Dedfrydau Cymunedol: Rhoi'r gorau i oruchwyliaeth gymunedol yn gynnar ar gyfer rhai troseddwyr a chyflwyno goruchwyliaeth llai dwys ar gyfer y rhai â risg is
- Model Dilyniant yn y Ddalfa: yn cyflwyno tri cham mewn perthynas â rhyddhau yn y ddalfa ac ar ôl y ddalfa. Ni fydd rhai troseddwyr yn destun goruchwyliaeth yn nhraean olaf dedfrydau.
- Gostyngiad mewn Oriau Gwaith Di-dâl fel cymhelliant ar gyfer ymddygiad da

Ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
	Deiet/Maeth Gall unigolion ar incwm isel golli mynediad at wasanaethau cymorth fel banciau bwyd a thalebau. Yn aml, mae gan y Gwasanaeth Prawf fynediad at y rhain ar y safle neu gallant gyfeirio pobl at wasanaethau cymorth lleol – ***Pobl ar incwm isel***

Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
Diweithdra Gall lleihau gofynion goruchwylio a thrwyddedu ar gyfer unigolion cymwys gefnogi gwell mynediad at gyflogaeth neu weithgaredd chwilio am swydd, a'u cadw mewn cyflogaeth. Gwneir hyn drwy leihau'r rhwystrau a'r aflonyddwch sy'n gysylltiedig â goruchwylio cyfiawnder troseddol, gan gynnwys cael gwared ar y stigma o fod 'ar brawf' – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***	

Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd

⊕ Effeithiau Cadarnhaol	⊖ Effeithiau Negyddol Anfwriadol
	Cyngor gyrfaoedd / Addysg a hyfforddiant Bydd terfynu goruchwyliaeth yn gynnar yn lleihau mynediad at ffeiriau gyrfaoedd a gynhelir mewn swyddfeydd Prawf i Bobl ar Brawf gan leihau cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd â darpar gyflogwyr – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Di-waith/Heb waith, Economaidd Anweithgar***
	Gwasanaethau meddygol ac iechyd Bydd dod â goruchwyliaeth i ben yn gynnar leihau mynediad at ddarparwyr gwasanaethau iechyd mewn (rhai) safleoedd prawf megis; sgrinio am feirysau a gludir yn y gwaed, sgrinio am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***
	Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Gall gofynion lleihau goruchwyliaeth gael effaith negyddol ar rai unigolion drwy gyfyngu ar gyswllt ag ymarferwyr prawf, a thrwy hynny leihau cyfleoedd i nodi iechyd meddwl sy'n dirywio, gofid cynyddol, neu risgiau o hunan-niweidio a hunanladdiad, ac i gysylltu unigolion â gwasanaethau cymorth priodol – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol***
	Gwasanaethau cymorth camddefnyddio sylweddau Gall gofynion lleihau goruchwyliaeth gael effaith negyddol ar rai unigolion drwy leihau cyswllt ag ymarferwyr prawf, a allai leihau cyfleoedd i nodi camddefnyddio sylweddau, ymyrryd yn dilyn ailgydio mewn sylweddau, a chysylltu unigolion â thriniaeth a chymorth gwella priodol. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau oni bai bod gwasanaethau cymorth ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith cyn lleihau goruchwyliaeth – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Pobl sy'n defnyddio sylweddau***
	Gwasanaethau cymorth ariannol/dyled Gall apwyntiadau goruchwylio roi cyfleoedd i ymarferwyr prawf nodi caledi ariannol, problemau dyled ac anghenion llesiant, yn ogystal â chyfeirio unigolion at wasanaethau cymorth perthnasol. Gall lleihau dwyster goruchwyliaeth, neu ddod â goruchwyliaeth i ben yn gynnar, gyfyngu ar gyfleoedd i nodi anawsterau ariannol sy'n dod i'r amlwg a chysylltu unigolion â gwasanaethau cymorth ar gyfer cyngor, budd-daliadau, tai, a dyled – ***Pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol, Pobl ar incwm isel***

Cyfeiriadau

[1] *Adolygiad Dedfrydu Annibynnol: Adroddiad Terfynol a Chynigion ar gyfer Diwygio* (Rhan 2, t. 4). Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. https://www.gov.uk/government/publications/independent-sentencing-review-final-report

[2] *Adolygiad Dedfrydu Annibynnol: Adroddiad Terfynol a Chynigion ar gyfer Diwygio* (Rhan 2, t. 4). Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. https://www.gov.uk/government/publications/independent-sentencing-review-final-report

[3] Senedd y DU, *Prison Capacity*, Hansard, Tŷ'r Cyffredin, Cyfrol 723, 30 Tachwedd 2022, https://hansard.parliament.uk/Commons/2022-11-30/debates/520966EF-BB43-4380-8800-21C46222BE00/PrisonCapacity

[4] Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. (2023). *Temporary Presumptive Recategorisation Scheme (TPRS): Operational guidance* [Canllawiau polisi]. https://insidetime.org/wp-content/uploads/2023/08/TPRS_rulebook.pdf

[5] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2024, Gorffennaf 12). *End of Custody Supervised Licence (ECSL) data, England and Wales* [Data tryloywder]. Llywodraeth y DU. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6690004049b9c0597fdafb6c/2024-07-11_ECSL_Transparency_data.pdf

[6] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2024, Gorffennaf 12). *Lord Chancellor sets out immediate action to defuse ticking prison 'time-bomb'* [Datganiad i'r wasg]. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/news/lord-chancellor-sets-out-immediate-action-to-defuse-ticking-prison-time-bomb

[7] The Home Detention Curfew and Requisite and Minimum Custodial Periods (Amendment) Order 2024, SI 2024/1331 (UK). https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/1331

[8] Makoona, D. (2025, Hydref 28). *Criminal Justice Act 2003 (Suitability for Fixed Term Recall) Order 2025 (FTR48). Inside Time.* https://insidetime.org/legal/criminal-justice-act-2003-suitability-for-fixed-term-recall-order-2025-ftr48

[9] Ychwanegu cyfeiriad at 3,112 o garcharorion wedi'u rhyddhau yn dilyn SDS40 Transparency_data_-_SDS40_tranches_1_and_2_day_one.pdf

[10] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2024, Tachwedd 7). *Standard Determinate Sentences 40% (SDS40) 'Tranche 1' and 'Tranche 2' release data, England and Wales* [Data tryloywder]. Llywodraeth y DU. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/672b9306094e4e60c466d247/Transparency_data_-_SDS40_tranches_1_and_2_day_one.pdf

[11] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025, Gorffennaf 31). *Community performance annual update to March 2025*. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/statistics/community-performance-annual-update-to-march-2025/community-performance-annual-update-to-march-2025

[12] Timpson, J. (2025, Ebrill 25). *National roll out of "Impact" – A new approach to working with those at lower risk of reoffending* [Llythyr at y Pwyllgor Cyfiawnder]. Senedd y DU, Pwyllgor Cyfiawnder. https://committees.parliament.uk/publications/47614/documents/248723/default/

[13] Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. (n.d.). *Understanding your sentence*. https://prisonreformtrust.org.uk/adviceguide/understanding-your-sentence/

[14] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025, Tachwedd 27). *Sentencing Bill: Progression measures factsheet*. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-progression-measures-factsheet

[15] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025, Tachwedd 27). *Sentencing Bill: Progression measures factsheet*. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-progression-measures-factsheet

[16] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2024, Rhagfyr 11). *Strategaeth Capasiti Carchardai 10 mlynedd* (CP 1219). GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/10-year-prison-capacity-strategy

[17] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2026). *Annual Statement on Prison Capacity: 2025* (CP 1494, t. 10). Llywodraeth y DU. https://www.gov.uk/government/publications/annual-statement-on-prison-capacity-2025

[18] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2025, Hydref 24) *Building an effective and resilient Probation Service* (HC 1354, t. 12). Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2025/10/building-an-effective-and-resilient-probation-service.pdf

[19] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2025, Hydref 24) *Building an effective and resilient Probation Service* (HC 1354, t. 14). Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2025/10/building-an-effective-and-resilient-probation-service.pdf

[20] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2024). *Offender Management Statistics Bulletin, England and Wales: Quarterly January to March 2024; annual prison population to 30 June 2024*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r bwletin yn adrodd bod poblogaeth carcharorion yn y ddalfa wedi cyrraedd 17,070 ar 30 Mehefin 2024, y lefel uchaf ers o leiaf 50 mlynedd, tra bod y boblogaeth carcharorion a adalwyd yn uwch nag erioed, sef 12,199.

[21] *Adolygiad Dedfrydu Annibynnol: Adroddiad Terfynol a Chynigion ar gyfer Diwygio* (t. 39). Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r adolygiad yn nodi bod gan oedolion sy'n gadael y ddalfa'r gyfradd aildroseddu brofedig uchaf (38.3%), a bod y cyfraddau aildroseddu uchaf yn gysylltiedig â dedfrydau carchar byr (59.2%). https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6871276afe1a249e937cc096/Sentencing_Review_Final_Report_and_Recommendations_-_Welsh_Translation.pdf

[22] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025, Tachwedd 27). *Sentencing Bill: Sentencing measures factsheet*. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-sentencing-measures-factsheet

[23] Adolygiad Dedfrydu Annibynnol. (2025). *Adolygiad Dedfrydu Annibynnol: Adroddiad Terfynol a Chynigion ar gyfer Diwygio* (t. 30). Llywodraeth y DU. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6871276afe1a249e937cc096/Sentencing_Review_Final_Report_and_Recommendations_-_Welsh_Translation.pdf

[24]Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2026). *Electronic monitoring: Responding to increasing demand* [Gwaith ar y gweill]. Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. https://www.nao.org.uk/work-in-progress/electronic-monitoring-responding-to-increasing-demand/

[25] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Criminal justice statistics quarterly: Rhagfyr 2025. Offeryn canlyniadau yn ôl data troseddau, Tabl 2. Cyhoeddwyd 2026 Ebrill 30. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-statistics-quarterly-december-2025

[26] *Adolygiad Dedfrydu Annibynnol: Adroddiad Terfynol a Chynigion ar gyfer Diwygio* (Rhan 2, t. 42). Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. https://www.gov.uk/government/publications/independent-sentencing-review-final-report

[27] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025). *Sentencing Bill:* Remand measures factsheet. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-remand-measures-factsheet

[28] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025). *Sentencing Bill: Sentencing measures factsheet*. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-sentencing-measures-factsheet

[29] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2024). *Offender Management Statistics Bulletin, England and Wales: Quarterly January to March 2024; annual prison population to 30 June 2024*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r bwletin yn adrodd bod poblogaeth carchardai a adalwyd yn uwch nag erioed, sef 12,199.

[30] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025). *Sentencing Bill: Progression measures factsheet*. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-progression-measures-factsheet

[31] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025). *Sentencing Bill: Progression measures factsheet*. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-progression-measures-factsheet

[32] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025, Tachwedd 27). *Sentencing Bill: Progression measures factsheet* [Papur polisi]. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-progression-measures-factsheet

[33] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025). *Sentencing Bill: Progression measures factsheet*. GOV.UK. Mae'r daflen ffeithiau'n nodi, yn ystod trydydd cam y model dilyniant (y "cam trwydded"), y bydd y troseddwyr risg uchaf yn parhau i gael eu goruchwylio yn y gymuned am draean olaf eu dedfryd. Mae hyn yn cynnwys troseddwyr a reolir o dan lefelau 1-3 MAPPA, troseddwyr terfysgol a throseddwyr sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, troseddwyr sy'n gysylltiedig â bygythiadau i ddiogelwch cenedlaethol neu weithgarwch gwladwriaethol gelyniaethus, y rhai a aseswyd yn rhai sy'n cyflwyno Risg Uchel neu Uchel Iawn o Niwed Difrifol (RoSH), ac oedolion perthnasol a enwir mewn Cynlluniau Amddiffyn Plant. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-progression-measures-factsheet

[34] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025, Tachwedd 27). *Sentencing Bill: Probation community measures factsheet* [Papur polisi]. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-probation-community-measures-factsheet

[35] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025, Tachwedd 27). *Sentencing Bill: Probation community measures factsheet* [Papur polisi]. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-probation-community-measures-factsheet. Gweler *Cynllun Dilyniant Dedfrydau Cymunedol*

[36] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025). *Sentencing Bill: Sentencing measures factsheet*; *Sentencing Bill: Probation community measures factsheet*; and *Sentencing Bill: Foreign national offenders factsheet*. GOV.UK. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-sentencing-measures-factsheet; https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-probation-community-measures-factsheet; a https://www.gov.uk/government/publications/sentencing-bill-2025/sentencing-bill-foreign-national-offenders-factsheet

[37] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2026). *Annual Statement on Prison Capacity: 2025* (t. 2). Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6978d0421c24881f40a4d6b0/moj_annual_statement_prison_capacity_2025.pdf.

[38] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2026). *Annual Statement on Prison Capacity: 2025* (CP 1494, t. 4). Llywodraeth y DU. https://www.gov.uk/government/publications/annual-statement-on-prison-capacity-2025

[39] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2026). *Annual Statement on Prison Capacity: 2025* (t. 8). Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6978d0421c24881f40a4d6b0/moj_annual_statement_prison_capacity_2025.pdf

[40] *Adolygiad Dedfrydu Annibynnol: Hanes a Thueddiadau Dedfrydu* (t. 9). Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67d83b5b1d56337f06b11f80/20.293_MOJ__Independent_Sentencing_Review_WELSH_v4_WEB.pdf

[41] *Adolygiad Dedfrydu Annibynnol: Hanes a Thueddiadau Dedfrydu* (t. 9). Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67d83b5b1d56337f06b11f80/20.293_MOJ__Independent_Sentenci

ng_Review_WELSH_v4_WEB.pdf
[42] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2024, Rhagfyr 11). *Strategaeth Capasiti Carchardai 10 Mlynedd* (CP 1219). GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/10-year-prison-capacity-strategy
[43] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2026). *Annual Statement on Prison Capacity: 2025* (CP 1494, t. 10). Llywodraeth y DU. https://www.gov.uk/government/publications/annual-statement-on-prison-capacity-2025
[44] Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr. (2025). *Planning application for the expansion of HMP Parc, Coity, Bridgend*. Porth Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
[45] Cyngor Sir Fynwy. (2024). *Planning permission for 80 Rapid Deployment Cells at HMP Prescoed, Usk*. Mae'r datblygiad cymeradwy yn cynnwys 80 o Gelloedd Defnydd Cyflym ychwanegol yng Ngharchar Prescoed, gan gynyddu'r capasiti gweithredol o 250 i 330 o leoedd.
[46] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2026). *Population bulletin: monthly March 2026*. In *Prison population: monthly prison figures 2026*. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/prison-population-monthly-prison-figures-2026
[47] Bwrdd Monitro Annibynnol. (2026). *Annual Report of the Independent Monitoring Board at HMP Usk and Prescoed, 1 April 2024 to 31 March 2025* (t. 19). Bwrdd Monitro Annibynnol. https://cdn.websitebuilder.service.justice.gov.uk/uploads/sites/13/2026/02/Usk-and-Prescoed-IMB-2024-2025-annual-report-FINAL.pdf. Tynnodd y Bwrdd Monitro Annibynnol sylw at y cynnydd arfaethedig mewn capasiti gweithredol yng Ngharchar Prescoed, a bydd angen adolygiad o'r sefydliad staffio a'r lle ymgynghori. Bydd hyn yn berthnasol yn yr un modd i ehangu CEF/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc.
[48] Price, J. (2024). *Growing old and dying inside: Improving the experiences of older people serving long prison sentences* (t. 9). Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. https://prisonreformtrust.org.uk/wp-content/uploads/2024/08/Growing-old-and-dying-inside.pdf
[49] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. (2026). Offender management statistics quarterly. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/collections/offender-management-statistics-quarterly
[50] Price, J. (2024, Medi). *Growing old and dying inside: Improving the experiences of older people serving long prison sentences*. Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. https://prisonreformtrust.org.uk/wp-content/uploads/2024/08/Growing-old-and-dying-inside.pdf
[51] Stürup-Toft, S., O'Moore, E. J., a Plugge, E. H. (2018). Looking behind the bars: Emerging health issues for people in prison. British Medical Bulletin, 125(1), 15-23. https://doi.org/10.1093/bmb/ldx052
[52] Danechi, S., a Cooney, F. (2026). *Prison population statistics* (CBP-4334, t. 20). Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/sn04334/
[53] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2025). Building an effective and resilient Probation Service (t. 5, para. 3). Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2025/10/building-an-effective-and-resilient-probation-service.pdf
[54] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2025). Building an effective and resilient Probation Service (t. 40). Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.
[55] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2025). *Building an effective and resilient Probation Service* (t. 32). Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2025/10/building-an-effective-and-resilient-probation-service.pdf
[56] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2025). Building an effective and resilient Probation Service (t. 48, Ffigur 13). Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2025/10/building-an-effective-and-resilient-probation-service.pdf
[57] Arolygiaeth Carchardai EF. (2016). Life in prison: Food (t. 13). Arolygiaeth Carchardai EF. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad "too often the quantity and quality of the food provided is insufficient, and the conditions in which it is served and eaten undermine respect for prisoners' dignity." https://cdn.websitebuilder.service.justice.gov.uk/uploads/sites/19/2016/09/Life-in-prison-Food-2016.pdf
[58] Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal. (2022). *Smoking bans in prisons improve health and reduce medications*. NIHR Evidence. Mae'r adolygiad yn adrodd, yn dilyn cyflwyno polisi carchar di-fwg yn yr Alban, bod gostyngiad o 9% yn y gyfradd dosbarthu meddyginiaethau ar gyfer afiechydon sy'n gysylltiedig ag ysmygu. Roedd hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn meddyginiaethau ar gyfer clefydau anadlol, ochr yn ochr â gostyngiadau llai ar gyfer cyflyrau eraill. https://evidence.nihr.ac.uk/alert/smoking-bans-in-prisons-improve-health-and-reduce-medications/
[59] Farmer, M. (2017, Awst). *The importance of strengthening prisoners' family ties to prevent reoffending and reduce intergenerational crime* (The Farmer Review). Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/642244/farmer-review-report.pdf
[60] Mae'r Ddeddf Dedfrydu yn darparu nad yw'r rhagdybiaeth yn erbyn dedfrydau carchar byr ddim yn berthnasol lle mae risg sylweddol o niwed corfforol neu seicolegol i unigolyn, gan ganiatáu i lysoedd fynnu carcharu ar unwaith lle bo angen i amddiffyn dioddefwyr, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang nad yw cam-drin domestig yn cael ei adrodd yn ddigonol ac yn aml nid yw'n cael ei ddatgelu i asiantaethau cyfiawnder troseddol, sy'n golygu nad yw'n debygol y bydd pob cyflawnwr cam-drin domestig yn cael ei adnabod

trwy'r eithriad hwn.
[61] Ym mis Mawrth 2024 dim ond 38 o famau a 36 o fabanod oedd mewn unedau mamau a babanod ledled Cymru a Lloegr. Gweler Senedd y DU. (2025, Gorffennaf 7). *Prisons: Mothers and Babies* (HL Deb, Cyf. 847). Hansard. https://hansard.parliament.uk/lords/2025-07-07/debates/58EE1978-B0C9-4E39-BE48-BE8304EF02C3/PrisonsMothersAndBabies
[62] Arolygiaeth Carchardai EF. (2024). *The experiences of adult black male prisoners and black prison staff*. Arolygiaeth Carchardai EF. https://cdn.websitebuilder.service.justice.gov.uk/uploads/sites/19/2024/02/The-experiences-of-adult-black-male-prisoners-and-black-prison-staff-web-2022-1.pdf
[63] Zhong, S., Senior, M., Yu, R., Perry, A., Hawton, K., Shaw, J., a Fazel, S. (2021). *Risk factors for suicide in prisons: A systematic review and meta-analysis. The Lancet Public Health, 6*(3), e164-e174. Mae'r awduron yn nodi bod cyfraddau hunanladdiad ymhlith pobl yn y carchar yn uwch o'u cymharu â phobl o oedran a rhyw tebyg sy'n byw yn y gymuned. https://doi.org/10.1016/S2468-2667(20)30233-4
[64] Zhong, S., Senior, M., Yu, R., Perry, A., Hawton, K., Shaw, J., a Fazel, S. (2021). *Risk factors for suicide in prisons: A systematic review and meta-analysis. The Lancet Public Health, 6*(3), e164-e174. Canfu'r astudiaeth fod cyflawni dedfryd oes yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o hunanladdiad yn y carchar (CS = 2.4, CH 95% 1.3-4.6). https://doi.org/10.1016/S2468-2667(20)30233-4
[65] Adolygiad Dedfrydu Annibynnol. (2025). *Adolygiad Dedfrydu Annibynnol: Adroddiad Terfynol*. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y gall defnydd mwy o ddedfrydau cymunedol gefnogi ailsefydlu a lleihau aildroseddu, gan dynnu ar dystiolaeth bod gorchmynion cymunedol yn aml yn fwy effeithiol na dedfrydau carchar byr wrth leihau troseddu pellach. Adalwyd o https://www.gov.uk/government/publications/independent-sentencing-review-final-report.
[66] Mutebi, N., a Brown, R. (2023, Gorffennaf 27). *The use of short prison sentences in England and Wales* (POSTbrief 52). Swyddfa Seneddol Gwyddoniaeth a Thechnoleg. https://doi.org/10.58248/PB52
[67] Davies, M., Rolewicz, L., Schlepper, L., a Fagunwa, F. (2020). *Locked out? Prisoners' use of hospital care*. Nuffield Trust. Canfu'r astudiaeth nad oedd carcharorion wedi mynychu 40% o apwyntiadau cleifion allanol, sef cyfradd tua dwywaith yn uwch o'i chymharu â'r gyfradd ar gyfer y boblogaeth gyffredinol. Adalwyd o https://www.nuffieldtrust.org.uk/research/locked-out-prisoners-use-of-hospital-care
[68] Ar hyn o bryd nid yw sgrinio am Feirysau a Gludir yn y Gwaed a Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol ar gael ar draws pob safle prawf yng Nghymru, er bod hyn wedi cael ei dreialu'n gadarnhaol mewn rhai safleoedd. Gweler; Challenger, A., Craddock, C., Gray, B., a Tilley, J. (2025, Mawrth 12). *Can sexual health services be delivered in a probation setting? Probation Quarterly*, 35. Probation Institute. https://doi.org/10.54006/YKCP2884
[69] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025, Mehefin 19). *The impact of overcrowding on assaults in closed adult public prisons*. GOV.UK. https://www.gov.uk/government/publications/the-impact-of-overcrowding-on-assaults-in-adult-public-prisons/the-impact-of-overcrowding-on-assaults-in-closed-adult-public-prisons